

Arolwg o Broffesiynolion Creadigol - 2016

Cyflwyniad

Cynnig Cyngor Celfyddydau Cymru amrywiaeth o gefnogaeth i broffesiynolion creadigol annibynnol gyda'r nod o '*ddatblygu sail fwy gwydn a chynhyrchiol i artistiaid*' yng Nghymru. Anfonwyd yr arolwg at bob unigolyn a gafodd arian drwy unrhyw un o'n cynlluniau grant i unigolion yn y tair blynedd diwethaf (2013/14 hyd 2015/16). Nodwyd bod cyfanswm o 536 o unigolion wedi derbyn y fath grantiau a gallai rhai ohonynt fod wedi derbyn grant ar gyfer sawl blwyddyn.

Cawsom gyfanswm o 140 o ymatebion oddi wrth y 536 unigolyn a gafodd grantiau yn y tair blynedd diwethaf. Cynrychiola hyn dros chwarter (26.1%) o'r sampl gyfan. O'r ymatebion hyn cafwyd 93.6% (131) yn Saesneg a 6.4% (9) yn Gymraeg.

Cynlluniau grant


- Dros y tair blynedd dan sylw (2013/14 hyd 2015/16), dyfarnwyd cyfanswm o 211 o grantiau i'r 140 o unigolion a ymatebodd.
- Roedd Grantiau Bychain a roddwyd i unigolion yn cyfrif am dros hanner (55.5%) o'r holl grantiau a gafodd ymatebwyr.

Amlyga'r tabl isod y grantiau a roddwyd i'r ymatebwyr yn ôl y flwyddyn gyda chanran y newid yn nifer y grantiau o 2013/14 hyd 2015/16.

	2013/14		2014/15		2015/16		Canran y newid 2013/14-2015/16
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
Grantiau Bychain (dan £5,000)	38	58.5	35	50.7	44	57.1	15.8
Grantiau Mawrion (dros £5,000)	16	24.6	19	27.5	13	16.9	-18.8
Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol	6	9.2	14	20.3	13	16.9	116.7
Grantiau Cymru Greadigol	5	7.7	1	1.4	7	9.1	40
Llysgennad Creadigol	0	0	0	0	0	0	Amherthnasol
Cyfanswm	65	100	69	100	77	100	18.5

- Nododd rhagor na dwy ran o dair (68.6%) o'r ymatebwyr mai dim ond un grant a gawsant dros y tair blynedd.

Dengys y graff isod nifer y grantiau a roddwyd i unigolion dros y tair blynedd.



Incwm

- Nododd trydedd ran (32.9%) o ymatebwyr fod 100% o'u holl incwm (gan gynnwys grantiau) yn 2015/16 yn gysylltiedig â'u gwaith o fod yn broffesiynolyn creadigol.
- Dywedodd 8 unigolyn fod llai na 5% o'u hincwm yn 2015/16 yn gysylltiedig â'u gwaith yn broffesiynolion creadigol a chafodd neb ohonynt grant yn 2015/16. O'r unigolion hyn, ni chafodd 5 unrhyw incwm o'u gwaith creadigol.

Dengys y tabl isod ganran incwm yr ymatebwyr yn 2015/16 sy'n gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol.

	Nifer	%
100%	46	32.9
76% - 99%	22	15.7
51% - 75%	15	10.7
26% - 50%	31	22.1
11% - 25%	7	5
5% - 10%	10	7.1
>5%	8	5.7


- Nid ymgwymerodd 43 (30.7%) o broffesiynolion creadigol â gwaith ychwanegol i ategu eu hincwm yn 2015/16.
- Bu rhagor na thraean (37.1%) o broffesiynolion creadigol yn gweithio yn y sector addysg yn ogystal â'u gwaith creadigol a dim ond 5 a fu'n gweithio yn y sector gwirfoddol.

	Nifer	%
Addysg	52	37.1
Y diwydiannau creadigol	43	30.7
Amherthnasol/dim gwaith arall am dâl	43	30.7
Arall	37	26.4
Y celfyddydau cymunedol	22	15.7
Gweinyddu'r celfyddydau	16	11.4
Y sector gwirfoddol	5	3.6

Gwaith proffesiynolion creadigol

- Nododd dros ddwy ran o bump (43.6%) o ymatebwyr fod eu hincwm (gan gynnwys grantiau) yn broffesiynolion creadigol yn 2015/16 yn uwch o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd chwarter (27.9%) fod eu hincwm wedi aros yn ei unfan ers y flwyddyn flaenorol a nododd pumed ran (21.4%) yn is na'r flwyddyn flaenorol.


Amlyga'r siart isod incwm proffesiynolion creadigol yn 2015/16 o'i gymharu â 2014/15.



- Nododd dros ddwy ran o bump (42%) o ymatebwyr fod eu rhagolygon cyfredol yn broffesiynolion creadigol yng Nghymru tua'r un peth ond teimlai dros chwarter (27.5%)fod eu rhagolygon yn llai cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn.

	Nifer	%
Tua'r un peth	58	42
Llai cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn	38	27.5
Mwy cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn	27	19.6
Ansicr/Nid wyddent	15	10.9

- Cytuna bron pedair rhan o bump (79.3%) o broffesiynolion creadigol fod eu profiad yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cryfhau eu penderfyniad i barhau i ddatblygu eu gyrfa creadigol yng Nghymru.
- Ystyrir Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol fyw ynddo gyda 82% o ymatebwyr yn cytuno â'r gosodiad hwn a chytuna bron tri chwarter (72.1%) o ymatebwyr fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol weithio ynddo.
- Cytunodd 5 o bob 10 ymatebydd y caent fel arfer ffi briodol am eu gwaith yn broffesiynolion creadigol.
- Cytunodd dros hanner y proffesiynolion creadigol fod y bri rhyngwladol ar eu gwaith wedi cynyddu dros y flwyddyn flaenorol.
- Cytunodd rhagor na tri chwarter (77.9%) o broffesiynolion creadigol i'w proffil godi yng Nghymru.




Datblygiad proffesiynol

- Nododd hanner yr ymatebwyr eu bod wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus yn 2015/16.
- Ond dim ond chwarter o broffesiynolion creadigol a ymgwyrodd â datblygiad proffesiynol parhaus ym maes busnes yn ystod 2015/16.
-

Yr ymatebwyr

Celfyddyd

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio ar draws lawer gelfyddyd. Nododd bron dwy ran o dair (62.1%) eu bod yn gweithio yn y celfyddydau gweledol a 5 yn unig (3.6%) ym maes syrcau



Rhywedd

- Roedd dros hanner (52.1%) o broffesiynolion creadigol a ymatebai i'r arolwg hwn yn fenywod gyda 47.9% yn ddynion.


Oed

- Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn 24 oed neu'n iau. Roedd dros draean (34.3%) yn yr oed 25-34 a chwarter arall yn yr oed 35-44.

	Nifer	%
18-24	0	0
25-34	48	34.3
35-44	35	25
45-54	28	20
55-64	18	12.9
65-74	9	6.4
75+	2	1.4

Incwm


- Nododd bron hanner (48.2%) o broffesiynolion creadigol fod eu hincwm (gan gynnwys grantiau ond ac eithrio didyniadau) yn llai na £10,399 yn 2015/16.
- Nododd dros ddegfed ran (12.9%) fod eu hincwm yn 2015/16 yn fwy na £26,000.



Dosbarthiad daearyddol

- Cafodd 46 o unigolion sy'n byw yng Nghaerdydd grantiau proffesiynol creadigol o 2013/14 hyd 2015/16.
- Ni chafodd unrhyw ymatebion i'r arolwg oddi wrth unigolion sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful neu Dorfaen.

Dosbarthiad y proffesiynolion creadigol a gafodd grant o 2013/14 hyd 2015/16



Ffocws ar grantiau (2015/16)

Grantiau Bychain

- O'r 44 proffesiynolyn creadigol a gafodd grant bychan yn 2015/16, nododd dros chwarter (27.3%) fod 100% o'u hincwm yn gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol.

- Credai dros hanner (54.5%) fod eu hincwm o'u gwaith proffesiynol creadigol yn uwch yn 2015/16 nag yn 2014/15.
- Credai chwarter o'r unigolion a gafodd grantiau bychain yn 2015/16 fod eu rhagolygon erbyn hyn o'u cymharu â'r blynyddoedd diwethaf yn llai cynaliadwy'n ariannol.
- Cytunodd hanner y cawsai fel arfer ffi neu gyflog priodol am eu gwaith proffesiynol creadigol ac anghytunodd chwarter (27.2%) â'r gosodiad hwn.
- Cytunodd 9 allan o 10 (90.1%) proffesiynolyn creadigol a gawsai grant bychan yn 2015/16 fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol fyw ynddi ac 8 allan o 10 (81.8%) yn cytuno ei bod yn wlad dda i weithio ynddi.
- Nododd dros hanner (54.5%) o'r unigolion a gafodd grantiau bychain fod incwm eu gwaith proffesiynol creadigol yn is na £10,399.

Grantiau Mawrion

- Cafodd gyfanswm o 13 proffesiynolyn creadigol grant mawr yn 2015/16. Nododd 12 o'r 13 ymatebydd a gafodd grant mawr fod dros 50% o'u hincwm yn gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol. Nododd dwy ran o bump (38.5%) fod 100% o'u hincwm yn dod o'u gwaith proffesiynol creadigol.
- Dywedodd dros dair rhan o bump (61.5%) o'r rhai a gafodd grant mawr yn 2015/6 fod eu hincwm yn 2015/16 yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Credai 5 unigolyn (38.5%) a gafodd grant mawr yn 2015/16 fod eu rhagolygon o ran bod yn broffesiynolion creadigol yng Nghymru o'u cymharu â'r blynyddoedd diwethaf yn fwy cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn. Credai pedwar arall fod eu rhagolygon yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.
- Cytunodd dros tri chwarter (76.9%) o'r rhai a gafodd grant mawr fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol fyw a gweithio ynddi.
- Cytunodd hanner (46.2%) yr ymatebwyr a gafodd grant mawr yn 2015/16 y cânt fel arfer ffi neu gyflog priodol am eu gwaith a chytunodd dros dri chwarter (76.9%) fod eu proffil proffesiynol creadigol yng Nghymru wedi codi yn y flwyddyn flaenorol.
- Dywedodd tair rhan o bump (61.5%) a gafodd grant mawr yn 2015/16 fod eu hincwm proffesiynol creadigol yn is nag £20,799.

Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

- Nododd 7 o'r 13 unigolyn creadigol (53.8%) a gafodd grant Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn 2015/16 fod eu holl incwm yn gysylltiedig â'u gwaith proffesiynol creadigol.
- Nododd dwy ran o bump (38.5%) o'r rhai a gafodd grant Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn 2015/6 fod eu hincwm yn 2015/16 yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol a dywedodd traean (30.8%) ei fod yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.

- Credai chwarter (23.1%) o'r ymatebwyr a gafodd grant Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn 2015/16 eu bod yn fwy cynaliadwy'n ariannol erbyn hyn a theimlai chwarter (23.1%) yn llai cynaliadwy'n ariannol.
- Cytunodd tri chwarter (76.9%) o'r ymatebwyr fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol fyw ynddi a chredai tair rhan o bump (61.5%) fod Cymru yn wlad dda i broffesiynolion creadigol weithio ynddi.